Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Y Bont-faen

**Borough Close**
**Y Bont-faen**
**CF71 7BN**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Y Bont-faen

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Y Bont-faen |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bro Morgannwg |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 271 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 188 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 53 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 1.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 6.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2015 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 12/06/2023 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae staff yn Ysgol Gynradd Y Bont-faen yn creu cymuned groesawgar a chynhwysol lle mae disgyblion yn awchus i ddysgu. At ei gilydd, mae'r ysgol yn cyflawni ei nodau yn effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu creadigrwydd, annibyniaeth ac uchelgais yn llwyddiannus. Mae disgyblion yn barchus, yn frwdfrydig ac yn hapus. Maent yn elwa'n fawr ar ymagwedd effeithiol yr ysgol at ddatblygu medrau meddwl, gan eu galluogi i wneud penderfyniadau, trefnu eu dysgu a chyfrannu'n effeithiol at y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn ffurfio partneriaethau cryf â rhieni a'r gymuned leol ehangach. Mae rhieni'n teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u hysbysu, ac yn gwerthfawrogi'r cymorth a gânt. Mae elusennau a busnesau lleol yn gweithio mewn partneriaeth â'r ysgol i ddarparu profiadau sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm ac yn cefnogi lles. Mae disgyblion yn datblygu ymdeimlad o'u hunaniaeth eu hunain a dealltwriaeth o'u bro, ac yn dechrau deall sut mae eu bywydau'n cymharu â bywydau pobl eraill ledled y byd.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn y rhan fwyaf o'u meysydd dysgu. Maent yn datblygu dealltwriaeth gadarn o beth, sut a pham maent yn dysgu, ac yn cysylltu'r medrau a'r wybodaeth y maent yn eu hennill â'u dyheadau. O oedran cynnar, mae disgyblion yn dechrau myfyrio ar eu dysgu, gan awgrymu ffyrdd y gallen nhw a disgyblion eraill wella'u gwaith. Yn aml, mae disgyblion hŷn yn datblygu dealltwriaeth soffistigedig o'u camau nesaf mewn dysgu, gan ddefnyddio holi ac ymateb i adborth athrawon i wneud gwelliannau.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn ystyried anghenion unigol disgyblion yn ofalus ac yn darparu cymorth effeithiol. Mae staff yn datblygu perthnasoedd gweithio cadarnhaol a chefnogol â disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymateb yn dda i her ac yn datblygu gwydnwch. Maent yn teimlo'n ddiogel a bod pobl yn gwrando arnynt, ac yn gwybod sut i ofyn am gyngor pan fydd angen. Mae gwaith yr ysgol ar greadigrwydd a meddwl yn rhoi cyfleoedd helaeth i ddisgyblion fod yn arloesol, dod o hyd i atebion a defnyddio'u dychymyg. Mae disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o'r amgylchedd yn dda. Maent yn mwynhau eu gweithgareddau dysgu yn yr awyr agored a'u gweithgareddau corfforol. Er eu bod yn deall effaith diet ar eu cyrff, nid ydynt bob amser yn gwneud dewisiadau priodol o ran byrbryd.

Mae uwch arweinwyr yn annog bron pob un o'r staff i arwain ar agweddau ar wella'r ysgol. Mae staff yn cydweithio i ysgogi newid mewn meysydd pwysig o waith yr ysgol, gan sicrhau cysondeb mewn addysgu ac mewn cymorth ar gyfer disgyblion.

## Argymhellion

A1 Gwella trefniadau i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn ymwneud â datblygu creadigrwydd trwy ei chwricwlwm, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae bron pob un o’r disgyblion yn dechrau yn yr ysgol yn y dosbarth derbyn neu’r dosbarth meithrin gyda medrau cyfathrebu sy’n debyg i’r hyn sy’n ddisgwyliedig am eu hoedran neu’n uwch. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un o’r disgyblion yn gwneud cynnydd addas o leiaf yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol, ac mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd cryf. Maent yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda, ac yn cymhwyso’r wybodaeth honno’n llwyddiannus i gyd-destunau newydd.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn sgwrsio’n dda â’i gilydd, a gydag oedolion. Maent yn mynegi eu syniadau’n glir. Yn aml, mae disgyblion hŷn yn siarad yn huawdl gan ddefnyddio geirfa gymhleth ac iaith soffistigedig gyda lefel uchel o hyder, er enghraifft wrth berfformio dramâu yn seiliedig ar waith Shakespeare. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 3 yn esbonio cysyniad cadwyni bwyd yn glir, gan roi diffiniadau cywir o gynhyrchwyr, rheibwyr ac ysglyfaethau. Mae bron pob un o’r disgyblion yn gwrando’n astud ac yn weithredol. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn trafodaeth ddosbarth ac yn cyfrannu’n aeddfed, er enghraifft wrth ystyried sut gellir bodloni hawliau dynol.

O oedran cynnar, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu gwybodaeth am lythrennau a seiniau yn dda. Ym Mlynyddoedd 1 a 2, maent yn datblygu eu medrau darllen yn gyflym ac yn defnyddio ystod dda o strategaethau wrth fynd i’r afael â geiriau anghyfarwydd. Mae disgyblion hŷn yn nodi gwybodaeth allweddol o destunau ac yn defnyddio’r wybodaeth hon i grynhoi a chasglu ystyr. Maent yn darllen yn dda, gan addasu tôn eu llais i gyfleu ystyr. Erbyn Blwyddyn 6, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen gyda hyder a dealltwriaeth, er enghraifft wrth ddisgrifio beth sy’n digwydd i gymeriadau mewn llyfr y maent yn ei rannu. Maent yn darllen â chyflymdra a chywirdeb ac yn mwynhau darllen amrywiaeth eang o lyfrau.

Mae disgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu cadarn o oedran cynnar. Maent yn cymhwyso’r medrau hyn yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Erbyn Blwyddyn 1, mae disgyblion yn ysgrifennu brawddegau byr, er enghraifft i ddisgrifio’u gwyliau neu ofyn i drigolion lleol warchod draenogod. Mae disgyblion o Flwyddyn 2 i fyny yn gwneud cynnydd cryf ac yn ysgrifennu â chywirdeb cynyddol. Maent yn ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd a dibenion. Maent yn ysgrifennu cerddi, llythyrau, hysbysebion, sgriptiau a storïau effeithiol yn gysylltiedig â’u hymholiadau dosbarth. Erbyn Blwyddyn 6, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu’n rhydd

gyda lefel uchel o greadigrwydd, er enghraifft wrth greu arloesiadau soffistigedig o chwedl Gymreig. Fodd bynnag, nid yw disgyblion bob amser yn cymryd digon o ofal â'u llawysgrifen.

At ei gilydd, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu medrau Cymraeg. Maent yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus i gyfarch ymwelwyr a gofyn cwestiynau iddynt am ble maent yn byw, a gyda phwy. Maent yn ymateb yn dda i gyfarwyddiadau Cymraeg gan athrawon. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer ohonynt yn datblygu eu hysgrifennu'n llwyddiannus, gan greu brawddegau a pharagraffau syml, er enghraifft i ddisgrifio'r gwledydd y maent yn teithio iddynt. Mae llawer ohonynt yn darllen ag ynganiad addas wrth ddarllen o destunau Cymraeg.

Mae medrau mathemategol disgyblion yn datblygu'n dda yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae disgyblion iau yn ymchwilio i gynhwysedd yn annibynnol, gan ddod o hyd i ffyrdd i gymharu hanner llawn a chwarter llawn. Maent yn defnyddio amrywiaeth o ddysglau, gan eu llenwi i gyfateb i'r ffracsiwn a gynrychiolir. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio pedair rheol rhif yn hyderus, er enghraifft wrth adio a thynnu gan ddefnyddio'r dull colofnau. Maent yn casglu data ac yn tynnu llun siartiau bar yn briodol, wrth ymchwilio i sylweddau sy'n toddi. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn fedrus ar draws meysydd eraill o'r cwricwlwm, er enghraifft pan fyddant yn dadansoddi nifer yr ymwelwyr ag ardaloedd o harddwch naturiol yng Nghymru.

Mae medrau digidol disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Maent yn mireinio'r medrau hyn wrth lunio cronfeydd data, taenlenni a chyflwyniadau. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 5 yn creu cronfa ddata ar blanedau ac yn dylunio gêm gardiau o ganlyniad. Mae disgyblion yn dechrau defnyddio rheolydd i raglennu robotiaid o oedran ifanc, ac yn symud ymlaen i ddefnyddio codio mwy datblygedig erbyn Blwyddyn 6. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyfedr o ran cynhyrchu fideos ac yn trin delweddau digidol i gasglu tystiolaeth o'u gwaith.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn llwyddiannus. Maent yn gweithio'n dda yn annibynnol ac yn gwneud penderfyniadau defnyddiol am eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddysgwyr gwydn sy'n cymhwyso strategaethau datrys problemau yn hyderus. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn dangos y medrau hyn wrth greu siartiau adnabod i helpu nodi'r amrywiaeth o chwilod y maent yn dod o hyd iddynt yn yr ardal awyr agored, ac wrth godi pabell heb gyfarwyddiadau.

Un o nodweddion nodedig yr ysgol yw pa mor dda y mae disgyblion o bob oedran yn datblygu eu medrau creadigol. Trwy'r cyfleoedd niferus a gynigir, mae disgyblion yn datblygu medrau creadigol cryf i gynhyrchu gwaith dychmygus. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 3 i Flwyddyn 6 yn creu storïau, cerddi a chaneuon difyr. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn arddangos eu gwaith celf lliwgar wedi'i ysbrydoli gan arlunwyr o Gymru. Mae disgyblion Blwyddyn 3 yn cydweithio'n effeithiol wrth goreograffu a pherfformio dawnsiau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u dychymyg wrth chwarae a defnyddio'r awyr agored. Maent yn datblygu eu medrau corfforol yn dda dros gyfnod. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau echddygol manwl trwy drin a thrafod sofliar byw yn ofalus ac yn dangos medrusrwydd wrth odro buwch ffug. Mae disgyblion hŷn yn llwyddo i drefnu arbrofion

gwyddonol astrus ac yn dangos cydbwysedd ac osgo, er enghraifft wrth ddawnsio, neu wrth reidio'u beiciau ar lwybr beicio mynydd yr ysgol.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae staff yn creu perthnasoedd gweithio cynnes ac anogol gyda disgyblion. O ganlyniad, mae pob un o'r disgyblion yn teimlo'n hapus a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfle i ddilyn ystod o raglenni effeithiol sy'n eu cynorthwyo â'u lles. Adlewyrchir y gofal a'r parch a gânt yn eu hagweddau, eu perthnasoedd a'u hymddygiad eu hunain.

Mae ymddygiad disgyblion mewn ystafelloedd dosbarth ac o gwmpas yr ysgol yn eithriadol o dda. Maent yn creu a dilyn siarteri i sicrhau bod pawb yn gallu dysgu heb darfu. Mae bron pob un o'r disgyblion yn frwdfrydig am ddysgu. Maent yn dangos diddordeb mawr yn eu profiadau dysgu ac yn falch o'u gwaith. O oedran cynnar, mae disgyblion yn dechrau dangos lefel dda o annibyniaeth a gwydnwch. Nid ydynt yn cael eu rhwystro gan ofn methu, ac maent yn croesawu cyfleoedd i symud eu dysgu ymlaen. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 1 yn esbonio sut mae gwneud camgymeriadau yn eu helpu i ddysgu, ac mae disgyblion ym Mlwyddyn 4 yn dangos penderfyniad wrth ddatrys sudoku dynol.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn mwynhau dysgu yn yr awyr agored yn rheolaidd, gan ddod o hyd i ffyrdd newydd o ymarfer ac ymgorffori eu medrau. Maent yn gwneud y gorau o'u sesiynau ysgol goedwig ac yn gwerthfawrogi cyfleoedd i ofalu am anifeiliaid a phlanhigion. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn frwdfrydig wrth ddysgu ieithoedd newydd fel Cymraeg, Ffrangeg ac iaith arwyddion. Mae disgyblion yn y dosbarth meithrin yn gwrando ar ac yn ymateb yn dda i gyfarwyddiadau Cymraeg, ac mae disgyblion ym Mlwyddyn 4 yn mwynhau datblygu eu geirfa Ffrangeg wrth chwarae gemau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dyheadau ar gyfer gyrfaoedd yn y dyfodol, ac yn nodi'r medrau y maent yn eu dysgu a fydd yn eu helpu i gyflawni eu huchelgeisiau. Maent yn teimlo bod eu gwaith ar fedrau meddwl, er enghraifft, yn eu cynorthwyo i gynllunio a threfnu eu meddyliau wrth iddynt ddysgu. Maent yn dadansoddi tystiolaeth, yn ffurfio casgliadau, ac yn gosod camau priodol yn ystod eu hymholiadau.

Mae disgyblion yn ymateb yn dda i adborth llafar, ac yn dechrau cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain o oedran cynnar. Maent yn defnyddio meini prawf llwyddiant yn bwrpasol i nodi a deall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. Mae disgyblion hŷn yn myfyrio ar eu dysgu, gan ofyn ac ateb cwestiynau sy'n procio gwybodaeth ymhellach. Yn aml, maent yn gwneud sylwadau soffistigedig ar eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill, gan awgrymu ffyrdd y gallant wella. Maent yn canolbwyntio'n dda wrth weithio'n annibynnol, ac yn cydweithio'n effeithiol yn ystod gwaith pâr a gwaith grŵp, gan rannu syniadau ac egluro'u dealltwriaeth. Mae disgyblion yn cyfrannu at eu dysgu yn bwrpasol. Maent yn awgrymu syniadau ar gyfer datblygu eu cwricwlwm, eu hymholiadau a'u profiadau dysgu.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau cyfleoedd i fod yn egnïol. Er enghraifft, maent yn chwarae criced yn ystod amser chwarae ac yn mireinio'u medrau athletau yn barod ar gyfer diwrnod chwaraeon. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig ac yn cydweithio'n dda mewn sesiynau dawns. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o sut i'w diogelu eu hunain ar-lein. Maent yn cydnabod bod angen cadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel ac i ddefnyddio gwefannau y gellir ymddiried ynddynt wrth bori. Mae llawer ohonynt yn deall pwysigrwydd bwyta'n iach, ac effaith diet ar y corff a'r ymennydd. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn gwneud dewisiadau sy'n briodol o iach yn ystod amseroedd egwyl.

Mae pob un o'r disgyblion o Flynyddoedd 3 i 6 yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr at wella'r ysgol trwy eu rolau arwain. Mae Cyngor Digidol yr ysgol, er enghraifft, yn hyrwyddo diogelwch ar-lein trwy wasanaethau ysgol gyfan. Mae'r Cyngor Ysgol yn dylanwadu ar ddiwylliant diogelu'r ysgol ac yn hyrwyddo'r camau sy'n cadw disgyblion yn ddiogel. Mae gwaith yr ysgol ar hawliau dynol yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o'u hawliau eu hunain fel plentyn a hawliau pobl eraill. Er enghraifft, mae disgyblion yn codi arian i gefnogi elusennau lleol, a gwella bywydau plant bregus yn Sambia.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae cwricwlwm yr ysgol yn canolbwyntio ar anghenion a diddordebau disgyblion yn dda. Mae staff wedi mynd ati i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn ystyriol trwy gyfres o destunau yn seiliedig ar ymholi. Mae athrawon yn cynllunio a darparu adnoddau ar gyfer ystod eang o brofiadau ysgogol sy'n meithrin ymagweddau creadigol at ddysgu ac yn annog cydweithio. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer chwarae a dewis amrywiol o weithgareddau.

Defnyddir yr amgylchedd dysgu yn yr awyr agored yn eithriadol o dda i ddarparu ystod eang o brofiadau dysgu sy'n cysylltu â'r cwricwlwm arfaethedig. Er enghraifft, mae disgyblion yn casglu afalau ar gyfer Rosh Hashanah, yn mesur uchderau coed gyda chlinomedr ac yn cyfansoddi barddoniaeth wedi'i hysbrydoli gan natur. Caiff y cwricwlwm ei gyfoethogi gan ymweliadau addysgol ac ymwelwyr sy'n darparu cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu. Yn ddiweddar, fe wnaeth disgyblion elwa ar ymweliad â'r Ardd Berlysiau gyfagos i greu darluniau botanegol.

Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu yn effeithiol sy'n cynorthwyo disgyblion i drosglwyddo'u gwybodaeth a'u medrau i feysydd eraill y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion yn y dosbarth meithrin yn archwilio iaith wrth ddarganfod nodweddion mêl caled a mêl sy'n rhedeg. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 1 yn datblygu eu gwybodaeth am ffracsiynau wrth bobi bisgedi draenog, ac mae disgyblion hŷn yn archwilio cymwysiadau digidol wrth gynhyrchu fideos am y lleoedd yn y byd y maent yn bwriadu ymweld â nhw.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn cynnwys llawer o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am hanes a diwylliant Cymru. Maent yn dod i wybod am arlunwyr a cherddorion o Gymru ac yn ymchwilio i hanes eu hardal leol. Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu pwrpasol yn gysylltiedig â'r gymuned leol, fel gwerthuso hygyrchedd y dref ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn. Maent yn gwella dealltwriaeth disgyblion o degwch yn briodol ac yn dathlu amrywiaeth o fewn y gymuned leol.

Mae darpariaeth allgyrsiol yr ysgol yn eang. Mae staff yn cynnal ystod eang o glybiau a gweithgareddau sy'n galluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau a'u gwybodaeth ymhellach. Mae'r rhain yn cynnwys clwb amgylcheddol, côr, clwb aml-chwaraeon, a gemau bwrdd. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn trefnu profiadau preswyl buddiol ar gyfer yr holl ddisgyblion ym Mlynyddoedd 4 i 6 sy'n eu galluogi i ddatblygu eu medrau datrys problemau a'u gwydnwch ymhellach.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda mewn partneriaeth ag eraill i gyfoethogi dysgu. Mae ei gwaith gydag ymarferwyr creadigol yn galluogi disgyblion i gymryd rhan mewn prosiectau ysgogol sy'n ymestyn eu creadigrwydd. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn cynhyrchu gwaith o safon uchel mewn celf, dawns ac ysgrifennu. Mae ymweliadau rheolaidd gan aelodau o sefydliadau gwirfoddol yn helpu disgyblion i ennill profiad gwerthfawr mewn micro-gyllido a moeseg. Mae disgyblion yn cymhwyso'r medrau y maent yn eu dysgu yn bwrpasol er budd pobl mewn gwledydd eraill.

Mae gan bob un o'r athrawon ddisgwyliadau uchel o'u disgyblion. Ar y cyd â staff cymorth, maent yn meithrin perthnasoedd gweithio cryf a pharchus â disgyblion. Mae'r perthnasoedd cadarnhaol hyn yn cyfrannu at ethos pwrpasol, prysur a chymhellol yr ysgol.

Mae athrawon yn llwyddo i ennyn diddordeb disgyblion yn dda fel eu bod yn canolbwyntio'n llwyddiannus ar eu tasgau. Maent yn cynnwys disgyblion mewn cynllunio beth maent yn ei ddysgu, ac yn aml, sut. Maent yn gwneud defnydd rhagorol o adnoddau, gan gynnwys dyfeisiau digidol ac ardaloedd yn yr awyr agored, i gefnogi dysgu'r disgyblion. Mae athrawon yn adnabod disgyblion yn dda ac yn cynllunio'n effeithiol i ddiwallu eu hanghenion unigol. Mae cynorthwywyr cymorth dysgu yn darparu cymorth gwerthfawr ar gyfer dysgu'r disgyblion ar draws yr ysgol. Maent yn gweithio'n eithriadol o agos gydag athrawon i sicrhau ymagwedd gyson.

Mae athrawon yn rhoi esboniadau manwl a chyfarwyddiadau clir wrth gyflwyno cysyniadau newydd sy'n sicrhau bod disgyblion yn deall y disgwyliad. Maent yn cynllunio digonedd o gyfleoedd i ddisgyblion adeiladu ar eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn systematig, gan sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd ar draws y cwricwlwm. Mae athrawon yn datblygu creadigrwydd a meddwl disgyblion yn hynod effeithiol. Ar draws yr ysgol, maent yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fynegi eu barn a'u syniadau mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae athrawon a chynorthwywyr dysgu yn darparu cyfleoedd helaeth i ddisgyblion iau ddefnyddio'u dychymyg yn yr ardaloedd awyr agored dymunol, er enghraifft yn eu hymholiadau o'r fferm i'r fforc.

Yn ystod gwersi, mae pob un o'r athrawon yn rhoi adborth defnyddiol i helpu disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn gwneud a beth mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae bron pob un o'r athrawon yn defnyddio holi yn fedrus i herio disgyblion i adeiladu ar ddysgu blaenorol, gwirio'u dealltwriaeth a'u hannog i ymestyn eu meddwl yn annibynnol, ac mewn grwpiau a pharau yn ogystal.

Mae athrawon yn cynllunio ac yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion asesu a myfyrio ar eu gwaith eu hunain yn gynyddol effeithiol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Maent yn galluogi disgyblion i gynorthwyo'i gilydd yn gynhyrchiol mewn parau a grwpiau. Mae hyn yn datblygu gwydnwch a hyder disgyblion i ddysgu oddi wrth eu camgymeriadau, ac oddi wrth bobl eraill.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Gynradd Y Bont-faen yn gymuned gynhwysol lle rhoddir blaenoriaeth i les. Ar y cyd â disgyblion a rhieni, mae staff yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae teuluoedd yn teimlo'u bod yn cael eu hysbysu'n llawn a'u cynnwys yn llawn ym mywyd yr ysgol. Mae disgyblion yn ffynnu ac yn teimlo y gwrandewir ar eu cyfraniadau. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn creu amgylchedd dysgu difyr. Mae ardaloedd dan do yn fannau golau ac yn cael digon o aer, ac mae ardaloedd awyr agored yn ystyriol a dychmygus. Mae staff yn darparu ystod eang o symbyliadau diddorol a dilys sy'n galluogi disgyblion i fod yn chwilfrydig ac archwilio'u dysgu yn annibynnol. Maent yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ac yn annog priodoleddau fel parch, empathi, a chydweithrediad yn gyson.

Mae gweledigaeth ar y cyd yr ysgol ar gyfer disgwyliadau a dyheadau uchel yn cymell disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu. O ganlyniad, maent yn datblygu i fod yn ddysgwyr gwydn a hyderus.

Mae athrawon yn casglu awgrymiadau disgyblion am beth yr hoffent ei ddysgu, a sut. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 1 yn awgrymu ffyrdd o wneud tir eu hysgol yn addas ar gyfer draenogod ac yn ystyried sut i helpu garddwyr i ddelio â gwlithod. Mae disgyblion hŷn yn gwneud penderfyniadau am sut i gyflwyno'u gwaith ac yn arwain ymholiadau'n hyderus. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 6, er enghraifft, yn ymchwilio i faterion hygyrchedd yn eu bro ac yn eirioli dros newid.

Mae staff yn adnabod disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn dda ac yn teilwra cymorth i ddiwallu eu hanghenion. Ar draws yr ysgol, mae cynorthwywyr cymorth dysgu hynod fedrus yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd disgyblion, a'u hanghenion cymdeithasol ac emosiynol. Mae staff yn gweithio'n llwyddiannus gyda'i gilydd i fonitro cynnydd disgyblion yn ofalus, ac yn addasu'r cymorth pan fydd angen. Maent yn gweithio'n agos gyda theuluoedd ac asiantaethau eraill i ddewis y cymorth cywir a rhannu ffyrdd ymlaen. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud y cynnydd disgwyliedig, o leiaf, o'u mannau cychwyn unigol.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth am y fro ac am ddiwylliant a threftadaeth Cymru. Maent yn ymweld â lleoedd o ddiddordeb a phwysigrwydd, yn dysgu gan awduron lleol, ac yn archwilio crefftau traddodiadol fel gwehyddu. Mae staff yn annog disgyblion i ystyried y Gymru y maent yn byw ynddi. Mae disgyblion iau yn archwilio ffermio, yn meddwl o ble mae eu bwyd yn dod ac mae disgyblion hŷn yn ymchwilio i'r twf yn y boblogaeth, yr angen i warchod cynefinodd ac effaith ymddygiad gwrthgymdeithasol ar Fae Caerdydd. Mae'r profiadau hyn yn cynorthwyo disgyblion i ennill ymdeimlad cryf o berthyn.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd i ddisgyblion fireinio a chymhwyso'u creadigrwydd. Maent yn mynegi eu hunain mewn barddoniaeth ac yn mireinio technegau, gan gynhyrchu gwaith eithriadol o dda mewn celf a dawns yn aml. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 3, er enghraifft, yn creu morluniau mewn amrywiaeth o arlliwiau glas fel rhan o'u gwaith ar warchod cefnforoedd. Mae disgyblion hŷn yn ymchwilio ac yn mesur onglau yng ngwaith

Kandinsky ac yn defnyddio drama i archwilio ystyr paentiadau sy'n dynodi digwyddiadau hanesyddol arwyddocaol.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn cefnogi gwybodaeth disgyblion am amrywiaeth a'u dealltwriaeth o hawliau dynol yn feddylgar ac yn sensitif. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion feddwl am sut mae'r hawliau hyn yn gwneud gwahaniaeth i bobl ledled y byd, a gwneud sylwadau am hyn yn eu gwaith. Mae gwaith yr ysgol ar ddathlu eu cymuned LHDTC+ yn gryfder.

Mae grwpiau arweinyddiaeth disgyblion yr ysgol yn hynod weithgar ym mywyd yr ysgol. Mae staff yn sicrhau bod grwpiau fel y Criw Cymraeg a'r clwb Eco yn cefnogi gwaith yr ysgol yn effeithiol, er enghraifft arwain gwasanaethau i hyrwyddo'r Gymraeg a dyfeisio ymgyrchoedd i annog cynaliadwyedd.

Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn hyrwyddo ffyrdd o fyw yn iach yn briodol, er enghraifft trwy redeg siop ffrwythau bob dydd. Mae disgyblion yn dysgu am bwysigrwydd cwsg ac ymarfer corff, ac effaith bod yn yr awyr agored ar les. Mae tir helaeth yr ysgol wedi'i ddatblygu'n dda ac yn cael ei ddefnyddio'n dda, ac mae disgyblion yn manteisio ar bob cyfle i chwarae gemau a chwaraeon yn ystod y dydd. Maent yn mwynhau'r clybiau niferus a gynigir ac yn elwa ar ymweliadau â chanolfannau addysg awyr agored lle maent yn canŵio, dringo creigiau a llywio rhaeadrau.

Caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ddysgu am sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel, er enghraifft trwy addysg cydberthynas a rhywioldeb, a gwersi am ddiogelwch ar y rhyngrwyd. Mae arweinwyr yn cynnwys disgyblion mewn gwerthuso a chyfrannu at ddiwylliant diogelu cadarn yr ysgol ac mae'r Cyngor Ysgol wedi bod yn allweddol yn creu ac yn hyrwyddo siarter ddiogelu ddefnyddiol. Mae staff yn monitro presenoldeb disgyblion yn agos ac yn gweithio gyda rhieni i gadw absenoliaeth mor isel ag y bo modd. O ganlyniad, mae'r ysgol yn sicrhau lefel uchel o bresenoldeb.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Ar y cyd â chymuned yr ysgol gyfan, mae arweinwyr wedi datblygu gweledigaeth glir ar gyfer dysgu a lles yn seiliedig ar gynorthwyo disgyblion i gyrraedd eu llawn botensial a dod yn ddysgwyr gydol oes gofalgar a hyderus. Mae'r pennaeth yn dangos arweinyddiaeth gref ac empathig ac yn cael cefnogaeth dda gan uwch arweinwyr i ysgogi gwelliant.

Mae arweinwyr, athrawon a staff cymorth yn datblygu a chynnal perthnasoedd cadarnhaol yn hynod effeithiol ar draws cymuned yr ysgol gyfan. Mae staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu hannog, a'u meithrin, ac wir yn teimlo'u bod yn rhan o dîm. Mae rhieni'n teimlo'u bod yn cael eu cynnwys ym mywyd yr ysgol ac yn hynod werthfawrogol o'r cymorth sensitif a theilwredig a gânt fel teuluoedd, pan fydd angen. Mae arweinwyr, er enghraifft, yn sicrhau bod cymuned LHDTC+ yr ysgol yn teimlo'i bod yn cael ei chynnwys. Maent yn cynllunio'n briodol i leihau effaith yr argyfwng costau byw presennol ar deuluoedd bregus. Mae'r perthnasoedd gweithio agos hyn yn cyfrannu at sefydlu ymdeimlad cryf o gymuned sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr.

Mae arweinwyr yn adnabod eu hysgol yn dda ac yn nodi'r meysydd mwyaf priodol i'w gwella yn gywir. Mae blaenoriaethau'r ysgol yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar wella

dysgu, addysgu, arweinyddiaeth a lles. Mae staff yn glir am eu rôl wrth sicrhau a gwerthuso gwelliant yr ysgol. Mae arweinwyr ar bob lefel yn monitro effaith eu strategaethau gwella ar ddisgyblion yn bwrpasol ac yn rhannu eu canfyddiadau â staff. Yn ddiweddar, mae hyn wedi arwain at wella medrau meddwl disgyblion, gan eu galluogi i drefnu a chynllunio'u gwaith yn well ar draws y cwricwlwm. Mae arweinwyr yn canolbwyntio'n fanwl ar ansawdd yr addysgu, gan weithio gyda staff i sicrhau safonau uchel ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr yn creu cyfleoedd gwerthfawr i bob un o'r staff fyfyrio ar agweddau ar ddatblygiad yr ysgol, er enghraifft wrth asesu effaith dysgu yn seiliedig ar ymholi ar gynnydd disgyblion, ac wrth ddatblygu dysgwyr annibynnol. Mae dull cydweithredol yr ysgol yn galluogi staff i fireinio'u harfer ac yn helpu sicrhau deilliannau cadarnhaol ar gyfer pob un o'r disgyblion. Mae staff yn rhannu eu harfer yn rheolaidd o fewn yr ysgol.

Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer rheoli perfformiad yn effeithiol. Gall pob un o'r staff fanteisio ar gyfleoedd dysgu perthnasol, sy'n cysylltu'n agos â blaenoriaethau gwella'r ysgol ac yn cefnogi eu datblygiad proffesiynol yn llwyddiannus. Mae'r ymagwedd ysgol gyfan at wella addysgu mathemateg, er enghraifft, yn galluogi pob un o'r staff i ddatblygu strategaethau ar gyfer gwella medrau datrys problemau disgyblion yn eu gwaith rhifedd.

Mae arweinwyr yn cynllunio'n briodol i fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, gan gynnwys cynlluniau i ymgorffori'r Cwricwlwm i Gymru, i sicrhau diwygio anghenion dysgu ychwanegol a datblygu'r Gymraeg. Mae'r ysgol yn canolbwyntio'n effeithiol ar wella addysgu, datblygu ymholi, ac ymgorffori creadigrwydd a meddwl yn feirniadol. O ganlyniad, mae profiadau dysgu yn gyfoethog, yn amrywiol ac yn ddilys, gan alluogi disgyblion i ddatblygu i fod yn ddysgwyr gydol oes ac yn ddinasyddion.

Mae'r corff llywodraethol yn wybodus, yn dwyn arweinwyr i gyfrif yn briodol ac yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol. Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth dda o flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella, ac yn cyfrannu at werthuso gwaith yr ysgol trwy ystod o weithgareddau monitro. Maent yn cyfarfod â disgyblion yn rheolaidd i wrando ar eu barn ac yn gwneud trefniadau priodol i gefnogi lles. Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn monitro cynlluniau gwariant a'u heffaith yn drylwyr. Maent yn dyrannu cyllid grant, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, yn effeithiol i gefnogi anghenion dysgu a lles disgyblion a nodwyd. Maent yn defnyddio'r cyllid a godir gan gymdeithas rhieni ac athrawon weithgar yr ysgol ac amser gwirfoddolwyr i gyfoethogi'r cwricwlwm ar gyfer pob un o'r disgyblion. Er gwaethaf gwybodaeth disgyblion am effaith bwyta'n iach ar eu cyrff, ac ymrwymiad y corff llywodraethol i roi gwybod i rieni am bwysigrwydd hyn, mae llawer o ddisgyblion yn parhau i fwyta amrywiaeth o fyrbrydau afiach yn ystod amseroedd egwyl.

Mae arweinwyr, llywodraethwyr a staff yn sefydlu diwylliant diogelu cryf yn Ysgol Gynradd Y Bont-faen. Maent yn sicrhau bod y profiadau dysgu a ddarperir ganddynt yn helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth gadarn o sut i'w cadw nhw eu hunain a phobl eraill yn ddiogel.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  14/08/2023